

## TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD CABINET

### PWNC/SUBJECT

Newid dyddiad ail-leoli Ysgol Hafod Lon, Y Ffor ac Uned Tŷ Aran, Dolgellau i safle newydd ym Mhenrhyndeudraeth

---

### AELOD CABINET

Cyng. Gareth Thomas

---

### PENDERFYNIAD

Yn seiliedig ar y ffaith na fydd gwaith ar safle yr ysgol newydd ym Mhenrhyndeudraeth wedi ei gyflawni yn ddigonol i allu cynnal y drefn trosiannol yn ddiogel cyn ail-leoli disgyblion o'u lleoliadau presennol yn unol â'r dyddiad gweithredu gwreiddiol o 1 Medi 2016:

- Cymeradwyo newid dyddiad gweithredu ail-leoli Ysgol Hafod Lon, Y Ffor ac Uned Tŷ Aran, Dolgellau i safle newydd ym Mhenrhyndeudraeth o 1 Medi 2016 i 31 Hydref 2016.

---

### RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn dilyn cyfnod o ymgynghori gyda buddelïaid a chyhoeddi Rhybudd Statudol, cymeradwyodd Cabinet Cyngor Gwynedd yn ei gyfarfod ar 13 Ionawr 2015 i ail-leoli Ysgol Hafod Lon, Y Ffor ac Uned Tŷ Aran, Dolgellau i safle newydd ym Mhenrhyndeudraeth ar 1 Medi 2016, cynyddu capasiti yr ysgol ac ychwanegu elfen breswyl i'r ddarpariaeth.

Oherwydd bod disgyblion Ysgol Hafod Lon ac Uned Tŷ Aran ag anghenion addysgol arbennig roedd yr Adran Addysg a phennaeth Ysgol Hafod Lon o'r farn o'r cychwyn fod hi'n hanfodol i ganiatáu cyfnod trosiannol er mwyn rhoi cyfle i'r plant ymgyswrtu a'r ysgol newydd drwy gyfres o ymweliadau dros gyfnod o fis neu ddau cyn symud yn barhaol i'r safle newydd.

Y bwriad gwreiddiol oedd i hyn ddigwydd ym misoedd Mehefin a Gorffennaf gydag Ysgol Hafod Lon ac Uned Tŷ Aran yn ail-leoli ar 1 Medi 2016 ond, oherwydd bu oedi cyn dechrau'r gwaith ar y safle ac, er ymdrech, nid oedd yn bosib i adennill yr amser, ni fydd gwaith ar yr ysgol newydd ym Mhenrhyndeudraeth wedi ei gyflawni i allu cynnal y drefn trosiannol yn ddiogel tan mis Medi. Oherwydd hyn mae Cyngor Gwynedd o'r farn y bydd yn ddoeth i ddefnyddio misoedd Medi a Hydref ar gyfer y cyfnod trosiannol gan ohirio dyddiad ail-leoli yr ysgol a'r uned tan 31 Hydref 2016, sef diwrnod cyntaf ar ôl hanner tymor yr Hydref.

Mae 'Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) Llywodraeth Cymru', sef canllawiau sydd rhaid eu dilyn wrth addasu unrhyw ddarpariaeth ysgol, yn nodi:

*Fel arfer, **rhaid** i gynigion gael eu gweithredu yn unol â'r hyn y penderfynwyd*

---

---

*arno neu a gymeradwywyd (gyda neu heb addasiadau). Fodd bynnag, os bydd cynigydd yn fodlon, ar ôl ymgynghori ag unrhyw gorff llywodraethu yr effeithir arno, y byddai'n afresymol o anodd gweithredu cynnig ar y dyddiad gweithredu gwreiddiol, neu fod yr amgylchiadau wedi newid cymaint ers i'r cynnig gael ei gymeradwyo ei bod yn amhriodol ei weithredu ar y dyddiad gwreiddiol, gall addasu'r cynnig fel bod y broses o'i weithredu yn cael ei gohirio am hyd at dair blynedd.*

Mae'r Cyngor yn ystyried, am y rhesymau a nodir uchod, y byddai'n afresymol o anodd gweithredu'r cynnig ar y dyddiad gwreiddiol.

Yn unol â chanllawiau y Cod rydym wedi ymgynghori a Chorff Llywodraethol Ysgol Hafod Lon ar y cynnig i newid dyddiad ail-leoli a bu iddynt gadarnhau yn eu cyfarfod ar 16 Mai 2016 eu bod yn fodlon a'r cynnig.

Mae Cyngor Gwynedd felly yn cymeradwyo newid dyddiad ail-leoli Ysgol Hafod Lon, Y Ffor ac Uned Tŷ Aran, Dolgellau i safle newydd ym Mhenrhyndeudraeth o 1af Medi 2016 i 31 Hydref 2016.

Os na fydd y penderfyniad yn cael ei alw fewn, mi fyddwn yn rhannu'r penderfyniad gyda buddelïaid perthnasol gan gynnwys rhieni, gwarchodwyr, staff, Llywodraeth Cymru ac Estyn (yn unol â Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) Llywodraeth Cymru).

---

## **YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

### **Lleoli disgyblion 1 Medi - 30 Hydref 2016**

Bydd disgyblion presennol Ysgol Hafod Lon ac Uned Tŷ Aran yn parhau i fynychu Ysgol Hafod Lon, Y Ffor ac Uned Tŷ Aran, Dolgellau tan y dyddiad ail-leoli newydd.

Bydd y disgyblion sydd yn trosglwyddo o ysgolion prif-lif i'r ysgol newydd yn parhau yn eu hysgolion presennol tan y dyddiad ail-leoli newydd.

Bydd unrhyw blant sydd yn trosglwyddo o Unedau ABC i'r ysgol newydd yn parhau yn yr Uned tan ddyddiad newydd yr ail-leoli.

Bydd cyllideb Ysgol Hafod Lon rhwng 1 Medi - 30 Hydref wedi ei selio ar niferoedd, ac anghenion, y plant fydd yn mynychu yn y cyfnod hwnnw gan gynyddu pan fydd plant ychwanegol yn trosglwyddo i'r safle newydd o ysgolion eraill o 31 Hydref ymlaen. Yn y cyfamser bydd yr ysgolion ble leolir y disgyblion ychwanegol hyn rhwng 1 Medi - 30 Hydref yn parhau i dderbyn y dyraniad perthnasol am y cyfnod hwnnw. Felly, ni fydd newid yn y dyddiad ail-leoli yn cael effaith ar gyfraniad yr Adran Addysg tuag at addysg y plant.

Oherwydd bod cyfraniad grant cyfalaf Llywodraeth Cymru i'w wario ar yr ysgol newydd yn y cyfnod 2015/16 a 2016/17 ni fydd newid y dyddiad ail-leoli yn golygu unrhyw newid i amodau'r grant na gallu'r Cyngor i hawlio y cyfraniad.

---

**Mae Uned Cyllid Cyfalaf Ysgolion Llywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am Raglen**

---

Ysgolion 21ain Ganrif, wedi cytuno i'r newid yn nyddiad ail-leoli Ysgol Hafod Lon ac Uned Tŷ Aran. Maent hefyd yn fodlon i'r Cyngor newid dyddiadau cyflawni'r buddion sydd wedi eu nodi yn y llythyr dyfarnu gwreiddiol.

Felly ni fydd newid dyddiad gweithredu ail-leoli yn effeithio ar allu'r Cyngor i hawlio'r grant cyn belled ei fod yn cydymffurfio ag amodau'r llythyr dyfarnu gwreiddiol, gyda rhai addasiadau i ddyddiadau cyflawni buddion.

---

### **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

1. Y Prif Weithredwr :- Dim i'w ychwanegu
2. Swyddog Monitro :- Mae'r daflen wedi bod yn destyn mewnbwn gan y Gwasnaeth Cyfrethiol felly nid oes gennyf sywladau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.
3. Prif Swyddog Cyllid :- Mae'r penderfyniad i newid dyddiad gweithredu ail-leoli Ysgol Hafod Lon o'r 1 Medi 2016 i 31 Hydref 2016 yn ymddangos yn anorod. Bydd angen i'r Adran Addysg reoli ac ysgwyddo unrhyw oblygiadau ariannol refeniw sy'n deillio o'r oediad.

O ran sefyllfa'r grant / benthyca cyfalaf, mae'r llythyr dyfarnu gwreiddiol yn nodi fod yr ariannu am y cyfnod 2015/16 i 2016/17, a rhaid ei hawlio'n llawn erbyn 31 Mawrth 2017. Felly, o ran gwariant, nid yw'r oedi'n broblem i'r cais / hawliad grant.

---

### **BARN YR AELODAU LLEOL**

Peter Read :- Dim i'w ychwanegu.

Dyfrig Siencyn :- Dim i'w ychwanegu.

---

**LLOFNOD**

**DYDDIAD**



07/06/16

---